**CYFARFOD Y COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU A GYNHALIWYD DDYDD MERCHER 3YDD MEDI 2003 YN NHŶ CARADOG, PLAS SANT ANDREAS, CAERDYDD**

| Comisiynwyr | Ysgrifenyddiaeth |
|---|---|
| Mrs. S G Smith (Cadeirydd) | Mr. E H Lewis (Ysgrifennydd) |
| Mr. J E Davies (Dirprwy Gadeirydd) | Mr. S R Halsall |
| Mr. D H Roberts (Aelod) | Mr. C Chapman |
| | Mr. D Carr |

**1. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 20fed Mehefin 2003.**

Cymeradwywyd y rhain

**2. Materion yn codi.**

*2.1 Y Newyddion Diweddaraf am Dechnoleg Gwybodaeth*

2.1.1 **Nodwyd** nad oedd problem y gwasanaethydd wedi'i ddatrys o hyd. Nid oedd hyn wedi amharu ar waith y Comisiwn hwn yn ormodol oherwydd nifer isel y mapiau y mae angen eu cynhyrchu ar hyn o bryd. Fodd bynnag, amharwyd ar waith y Comisiwn Ffiniau i Gymru o ganlyniad i'r trosglwyddiad araf o ddata o'r gwasanaethydd i'r argraffyddion priodol.

2.1.2 **Cafwyd ar ddeall** mai'r rheswm am yr oedi presennol oedd bod y Cynulliad yn aros am ganiatâd oddi wrth berchennog Tŷ Caradog.

2.1.3 **Cytunwyd** y dylid ystyried y posibilrwydd o ysgrifennu llythyr ar y cyd oddi wrth Gadeiryddion y ddau Gomisiwn i'r rhai dan sylw wrth i'r oedi o ran trosglwyddo'r gwasanaethydd barhau.

*2.2 Cerdyn Credyd Corfforaethol*

2.2.1 **Nodwyd** bod y cais am Gerdyn Caffael y Llywodraeth wedi'i wneud, a'n bod yn awr yn aros i'r cerdyn gyrraedd.

*2.3 Arolwg o Ran o'r Ffin Rhwng Cymunedau Bracla a Choety Uchaf ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-Bont ar Ogwr.*

2.3.1 **Nodwyd** bod y Comisiwn yn dal i aros am benderfyniad ynglŷn â ph'un a fyddai'n derbyn cyfarwyddyd yn gofyn iddo gynnal yr arolwg yn ardal Cymunedau Bracla a Choety Uchaf.

2.3.2 **Cytunwyd** bod rhai materion penodol wedi'u codi gan y cais am arolwg Bracla/Coety Uchaf, a **chytunwyd hefyd** bod angen system fwy syml i benderfynu pryd y gallai'r Comisiwn gynnal arolwg pan fydd Sir yn nodi nad oes ganddi'r adnoddau i wneud hynny.

2.3.3 **Cytunwyd** y dylid codi'r materion hyn gyda'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus pan fydd y Comisiynwyr yn cwrdd â hi yn hwyrach y flwyddyn hon.

*2.4 Tendr ar gyfer Gwasanaethau Cyfreithiol*

2.4.1 **Nodwyd** bod y Comisiwn Ffiniau i Gymru wedi dilysu'r contract ar y cyd ar gyfer darparu gwasanaeth cyfreithiol.

**3. Arolwg o'r Ffiniau rhwng Sir Gaerfyrddin a Bwrdeistref Sirol Castell Nedd Port Talbot yn ardal Cwmllynfell – Y Diweddaraf am y Cyfarfod.**

3.1 O ganlyniad i'r ymateb a gafwyd oddi wrth drigolion yr ardal, cytunwyd y bu'r gwaith o ysgrifennu at bob berchennog tŷ yn ardal yr arolwg yn llwyddiant.

3.2 Oherwydd hyn, ac yn amodol ar beidio â derbyn unrhyw resymau cadarn oddi wrth y Cyngor, **cytunwyd** y dylid parhau i ddrafftio'r adroddiad terfynol, gan gynnwys trosglwyddo'r eiddo.

**4. Arolwg o'r Ffiniau rhwng Cymunedau Dyffryn Clydach a Blaenhonddan ym Mwrdeistref Sirol Castell Nedd Port Talbot.**

4.1 Ar ôl derbyn cyngor, **cytunwyd** y dylid ceisio cyfarwyddyd oddi wrth Gynulliad Cenedlaethol Cymru cyn parhau gyda'r arolwg hwn.

**5. Cais i gynnal Arolwg o'r Ffiniau rhwng Ceredigion a Sir Benfro yng Nghymunedau Llandudoch a Chilgerran.**

5.1 **Nodwyd** bod yr ymgynghoriad gyda'r awdurdodau priodol o ran yr arolwg arfaethedig wedi'I gwblhau.

5.2 **Cytunwyd** y dylid cynnwys yr arolwg arfaethedig yn rhaglen y Comisiwn ar ôl ystyried yr ohebiaeth a dderbyniwyd gan yr Awdurdodau ac argymhellion y Comisiwn yn ei gynigion terfynol ar gyfer yr arolwg o'r ffin rhwng Sir Geredigion a Sir Benfro yn ardal Cymuned Llandudoch.

**6. Llythyr oddi wrth Eirwen E Thomas yn gwneud cais am arolwg o'r Rhanbarthau Etholiadol ym Mhentref Llanedi, Pontarddulais**

6.1 Nodwyd y llythyr. **Cytunwyd** y dylid anfon y llythyr ymlaen at Gyngor Sir Caerfyrddin i weithredu arno.

**7. Adroddiad Cyllideb – Chwarter 1$^{af}$ 2003/04.**

7.1 **Nodwyd** yr adroddiad.

## 8. Unrhyw Fater Arall.

*8.1 Cyfarfod â'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus*

8.1.1 **Nodwyd** bod y cyfarfod blynyddol gyda'r Gweinidog yn agosáu.

8.1.2 **Cytunwyd** y dylai'r materion i'w codi gynnwys y broses o ddarparu cyfarwyddyd ar gyfer arolygon cymunedol a barn y Gweinidog ar ddyfodol Llywodraeth Leol ac unrhyw gamau yr hoffai Ms Essex eu cymryd dros y flwyddyn nesaf.

8.1.3 **Cytunwyd** y dylid gwneud cais am gynnal y cyfarfod ar ddyddiad yn dilyn Cyfarfod Blynyddol y Comisiwn.

*8.2 Cyflwyniad i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus*

8.2.1 **Nodwyd** y byddai'r cyflwyniad blynyddol i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael ei drefnu yn fuan.

*8.3 Tendro ar gyfer Mapio Digidol*

8.3.1 **Nodwyd** bod y Comisiwn wedi cynnal ymarfer tendro yn ddiweddar ar gyfer gwasanaethau mapio digidol o ran digideiddio ffiniau wardiau cymunedol yn ardaloedd Arolwg Cwmllynfell sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd.

8.3.2 **Nodwyd** bod yr ymarfer wedi bod yn ddefnyddiol wrth bennu'r costau o ran digideiddio ffiniau wardiau cymunedol cyn yr ymarfer Cymru gyfan arfaethedig.

8.3.3 **Nodwyd** bod y cytundeb wedi'i ddyfarnu i Global Mapping Systems Ltd y tro hwn.

*8.4 Cyfarfod Blynyddol*

8.4.1 **Nodwyd** y trefniadau ar gyfer Cyfarfod Blynyddol y Comisiwn sydd ar droed.

8.4.2 O ran cyfarfod blynyddol 2004, **cytunwyd** y dylid trefnu cyfarfodydd ar raddfa lai ac mewn lleoliad llai, oni fydd cynnydd annisgwyl yn llwyth gwaith y Comisiwn yn ystod y flwyddyn sy'n dod.

## 9. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

9.1 Trefnwyd i gynnal cyfarfod nesaf y Comisiwn yn y Beaufort Park Hotel, Yr Wyddgrug ar 7fed Hydref cyn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, yn dechrau am 6pm.